

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Ragfyr, 2022.

1. **Presennol** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg), Huw Pritchard, Sarah Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Cyngorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)
2. **Ymddiheuriadau** Michael Jones (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards, Dafydd Thomas (Penmorfa), Stephen Churchman (Cyngorydd Cyngor Gwynedd)

Cydymdeimlwyd gyda'r Cyngorydd Iddon Edwards a'i deulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith yng Nghaerdydd.

3. **Ddim yn bresennol** Neb
4. **Datgan buddiant** - Richard Parry ac Edward Evans - Eitem 16
5. **Cywirdeb cyn-gofnodion** Edward Evans yn cynnig eu bod yn gywir a Richard Williams yn eilio.
6. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

**Etholiad 2022:** Wedi derbyn ymateb gan Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau, Cyngor Gwynedd. Anfodlonrwydd yn parhau ymysg y cyngorwyr i ymateb Cyngor Gwynedd a'r anfoneb o £642.00. Clerc i wneud ymholiadau i weld os oes cyngorau cymuned eraill yn rhannu'r un anfodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth Etholiadol. MLW yn cynnig a RW yn eilio.

**John Ystumlllyn:** Adroddwyd bod y clerch wedi cysylltu gyda Ffion Gwyn yr Arlunydd ac y byddai'n hapus iawn i gydweithio gyda Chyngor Cymuned Dolbenmaen ar gael bwrdd gwybodaeth i Bentrefelin i gydnabod John Ystumlllyn ac enwogion eraill sydd wedi eu claddu ym Mynwent St Cynhaearn. Adroddwyd bod dau grant posib ar gael sef, Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Grant gan Gyngor Gwynedd sef Cronfa Celfyddydau Cymunedol. Clerc i wneud cais i'r ddau.

**Llwybrau Cyhoeddus:** Clerc wedi cysylltu hefo Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy o Gyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yma i ba bryd caiff y gwaith ei gwblhau ar lwybr rhif 5 a pha bryd y bydd yn ail ymweld â lwybr 75. Clerc i ddilyn y mater i fyny.

**Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn:** Clerc wedi cysylltu hefo Gwenan Davies o Dŵr Cymru. Bydd contractwyr yn mynd allan cyn gynted â phosib i gael gwared â llyisiau'r gingroen.

**Bryn Tyddyn, Pentrefelin:** Clerc wedi cysylltu â Thîm Tacluso Ardal Ni, Cyngor Gwynedd i adrodd nad oedd y gwaith clirio wedi ei wneud i safon. Adroddwyd fod y Tîm wedi bod allan i gwblhau'r gwaith ac wedi gwneud gwaith da.

**Pont y Traeth, Prenteg:** Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd. Y mater wedi'i anfon ymlaen at Ymgynghoriaeth Gwynedd. Wedi derbyn ymateb gan YGC yn dweud fod y bont yn cael ei archwilio bob dwy flynedd. Mae'r coed wedi cael ei adnabod fel gwaith ond nid yw'n waith sydd angen ei wneud ar frys. Y gobaith yw cwblhau'r gwaith yn y ddwy flynedd nesaf. Cyngorwyr yn teimlo bod angen rhoi sylw ynghynt i'r mater yma. Clerc i gysylltu yn ôl hefo YGC.

Parthed dŵr yn cronni mae YGC am siarad gyda Phriffyrdd Dwyfor a gweld beth sydd yn achosi'r broblem ac wedyn gweld os fedrant gael cynllun i ddatrys y broblem. Clerc i ddilyn y mater yma.

**Parcio Garndolbenmaen:** Adroddwyd bod y sefyllfa parcio wedi gwella.

**Mynydd Glas, Garndolbenmaen** - wedi gwneud ymholiadau hefo'r Parc parthed y gwaith tir-lenwi. Heb dderbyn ymateb llawn eto.

**Bancio ar-lein:** Clerc wedi derbyn dyfais diogelwch gan y banc. Disgwyl llythyr drwy post cyn gallu mynd ar-lein i gofrestru.

**Hwb Eifionydd:** Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Cymuned Llanystumdwy, Cyngor Tref Criccieth a Phorthmadog. Cadeirydd a Chynghorydd Cyngor Tref Criccieth wedi ymweld â'r Hwb yng Nghriccieth ac yn adrodd fod y cyfarfod wedi bod yn un gwerthfawr a bod yna ymgais i wella'r cyfathrebu. Mae'r Hwb Iechyd am sefydlu gwefan ac eisoes wedi sefydlu grŵp cleifion. Mae'r Cyngor Tref yn paratoui adroddiad i'w roi ar eu safle we.

Cafwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy yn cytuno y byddai'n fuddiol cydweithio ar y mater yma, ac y byddai gan y cynghorwyr a'r clerc ddiddordeb mewn cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

Atebodd Cyngor Tref Porthmadog yn dweud eu bod yn siomedig nad yw'r Hwb wedi cynnwys yr un o'r Cynghorau Cymuned/ Cynghorau Tref ar y panel cleifion.

Penderfyniad: Clerc i ysgrifennu at yr Hwb yn datgan siomedigrwydd nad yw'r Cynghorau Cymuned/Tref lleol wedi cael eu gwahodd i eistedd ar y paneli cleifion. MLW yn cynnig ac RW yn eilio.

**Cyfarfodydd Aml - Leoliad:** Clerc wedi ymchwilio i weld os oes grant ar gael er mwyn cael cysylltiad gwe. Wedi dod o hyd i Grant Perchnogaeth Gymunedol ar wefan Cyngor Gwynedd. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi os yw'r grant yma yn opsiwn i Ganolfan Gymdeithasol Golan a hefyd os oes ffenest ymgeisio arall yn y flwyddyn newydd gan fod y ffenest bresennol yn cau ar y 14eg o Ragfyr. Clerc wedi cael cyfarfod diddorol a buddiol iawn gydag Anwen Davies a Steffan o Adran Economi a Chymuned ar y 29ain o Dachwedd. Clerc i gadw mewn cysylltiad hefo Anwen a Steffan er mwyn ceisio symud ymlaen.

**Dafarn Faig** - wedi derbyn ymateb gan Merfyn Wyn Morris. Trefniant wedi ei wneud i dorri'r gordyfiant, Mr Morris yn disgwyl union ddyddiad. Y bwriad wedyn ydi ail-asesu'r sefyllfa ar ôl y toriad i weld os oes unrhyw welliannau eraill angen eu gwneud.

**Hard-drive:** Mike Jones wedi bod i'r siop gyfrifiadurol ym Mhorthmadog ac wedi cael pris o £69.99 am hard-drive gyda chof 1TB. Clerc i gysylltu hefo Mike i ofyn a fyddai'n fodlon mynd i'r siop ym Mhorthmadog i'w brynu. MLW yn cynnig a RW yn eilio.

## 7. Mynwentydd

Gwaith ar fedd ym Mynwent Bethel bellach wedi'i gwblhau.

## 8. Llwybrau Cyhoeddus

Gofynnwyd y cwestiwn - pwy sydd yn gyfrifol petai unrhyw un yn cael damwain ar y llwybrau cyhoeddus? Yr ateb a gafwyd oedd y dylai bod gan bob tîrfeddiannwr yswiriant.

Dwy giât geffyl ar gyfer llwybr rhif 5 dal heb gael eu gosod. Clerc i gysylltu â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Llwybrau am ddiweddariad.

## 9. Adroddiad Pentrefi

**Pentrefelin:** Huw Pritchard wedi holi Gweithdy Al os y gallu adeiladu hysbysfwrdd newydd, adroddwyd nad oedd yr offer ganddo i wneud y gwaith yma. Sarah Jones wedi holi Dylan Roberts, Saer Coed o Garndolbenmaen. Sarah yn disgwyl pris.

Adroddwyd nad oes arwydd yn arwain bobl at Eglwys St. Cynhaearn. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i holi am bris ac i'w gynnwys yn y ceisiadau am grant.

**Golan/Cwmystradllyn:** Lôn Cwm angen ei lanhau ar ôl i'r coed ddisgyn yn dilyn tywydd garw. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd Dwyfor.

**Bryncir:** Dim i'w adrodd.

**Penmorfa:** Dim i'w adrodd

**Prenteg:** Adroddwyd bod llawer o sbwriel wedi cael ei wasgaru o amgylch y pentref yn dilyn casgliad ailgylchu'r pythefnos diwethaf. Clerc i gysylltu hefo Uned Fwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

**Garndolbenmaen:** Dim i'w adrodd

## 10. Diffibriliwr Prenteg

Adroddwyd nad oes diffibriliwr ym Mhrenteg. Clwb Cerdded Pant Ifan wedi casglu arian ac eisiau rhoi'r arian yn rhodd i Gyngor Cymuned Dolbenmaen er mwyn prynu diffibriliwr i'r pentref. Cyngorydd Gwynedd, June Jones wedi siarad hefo Pwyllgor Neuadd Prenteg ac maent yn hapus i'w gael wedi ei osod yno. Soniodd y Cyngorydd June Jones mai tua £1470 fyddai'r diffibriliwr yn ei gostio gan Ambiwlans Cymru ac y byddai Ambiwlans Cymru wedyn yn gyfrifol am gynnal a chadw'r diffib. Clerc i wneud ymholiadau gydag Unllais Cymru i weld ble yr ydym yn sefyll gyda derbyn rhodd arian i brynu'r offer.

## 11. Ambiwlans Awyr Cymru Safleoedd Caernarfon a'r Trallwng

Cadeirydd wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Glan y Môr ar y 25ain o Dachwedd. Adroddwyd mai ychydig iawn oedd wedi mynychu i feddwl bod y neuadd yn eistedd tua 500. Dywedodd y bydd manylion yn y wasg yn y dyddiau nesaf am gyfarfod arall fydd yn cael ei gynnal rhyw ben yn y flwyddyn newydd.

## **12. Sedd Wag Pentrefelin a Garndolbenmaen**

Adroddwyd bod sedd wag ym Mhentrefelin yn dilyn ymddiswyddiad Manon Jones-Evans. Diolchwyd i Manon am ei holl waith dros Bentrefelin.

Mae sedd wag yng Ngarndolbenmaen hefyd,

Penderfynwyd mynd ati i geisio llenwi'r ddwy sedd yma. Clerc i gysylltu gyda'r Uned Etholiadau i gychwyn y broses.

## **13. Is-bwyllgor Mynwentydd**

Bu i'r is-bwyllgor mynwentydd gwrdd yn rhithiol ar y 17eg o Dachwedd i adolygu'r ffioedd claddu. Penderfynwyd gadael y ffioedd fel y maent ar hyn o bryd oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol gyda'r bwriad o adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn. MLW yn cynnig ac RW yn eilio.

## **14. Gohebiaeth**

- a. Cais am Orchymyn Diwygio Map Swyddogol o dan Adran 53, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 - Y Lôn Goed, Cymuned Llanystumdwy
- b. Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III a adwaenir fel Ffordd o Hen Efail i'r Gogledd-ddwyrain i Gefn Coch Isaf, Cwm Ystradllyn ar y 1af o Dachwedd, 2022
- c. Cofnodion Gweithdy Ardal Ni Dalgylch Port Penrhyn

## **15. Gohebiaeth Ychwanegol**

- a. Unllais Cymru: Graddfa Gyflog Newydd ar gyfer Clerc 2022/23 - adroddwyd y bydd angen ôl ddyddio cyflog y cyn glerc yn ôl i fis Ebrill. Yr arian i'w dalu i'r cyn-glerc ym mis Ionawr. Angen newid debyd uniongyrchol i ôl-ddyddio cyflog clerc ym mis Ionawr ac i godi'r debyd uniongyrchol o Chwefror ymlaen.

- b. Unllais Cymru: Y Dreth Gyngor: Ymgynghoriadau ar Reoliadau drafft i estyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar Ganllawiau
- c. Llywodraeth Cymru: Paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer 2021-22
- ch. Unllais Cymru: Bwlio ac Aflonyddu mewn Cyngorau
- d. Unllais Cymru: Cymorth Cyllid a Llywodraethu - Diweddarau Tachwedd 2022
- dd. Llywodraeth Cymru: Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 -terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24
- e. Unllais Cymru: Sut i wella manau gwyrdd cyhoeddus er mwyn bioamrywiaeth
- f. Unllais Cymru: Pwysigrwydd Cyngorau Cymuned & Thref wrth adeiladu lleoedd cydnerth ar gyfer natur
- ff. SARPA - Grŵp Defnyddwyr Rheilffordd
- g. Unllais Cymru: Uwchgynhadledd Ar-lein: O'r Trysorlys i Dreorci - Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn yng Nghymru
- ng. Unllais Cymru: Dyfodol Cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth

## 16. Cynllunio

**Rhestrau:** 7/11, 14/11, 21/11, 28/11

**NP2/16/T413H:** Adeiladu balwstrad wedi ei wydro yn rhannol i'r teras Beudy Mawr, Erw Suran, Cwm Ystradllyn. LL51 9BQ - Gwrthwynebu

**C22/1102/36/AC:** Ymgynghoriad Cynllunio - tir i'r dde o'r A487 ac i'r dwyrain o'r B4411, Bryncir, LL51 9LQ. Cais i newid yr amod amser i alluogi mwy o amser i gwblhau'r datblygiad. - Dim gwrthwynebiad.

## 17. Materion ariannol

**Ceisiadau am arian:** Dim

**Monitro'r Gyllideb:** Dim gorwariant

**Biliau i'w talu:**

Cyflog Clerc:	£258.02
Ffôn:	£10.00
Cyfrifiadur:	£25.00
HMRC:	£64.40
HSBC:	£10.00
Costau Gweinyddol Cyn-Glerc: (1/1/22 - 31/10/22)	£169.55

**Derbyniadau:** Dim

**Balansau Cyfrifon Banc:**

**Cadw:** £16,852.29

**Cyfredol:** £22,671.89

**18. Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg / wefan**

- Etholiadau
- Hwb Eifionydd
- Diolch i Manon
- Ailgylchu Prenteg